Trafod gwartheg a'u cadw dan do

Taflen Wybodaeth Amaethyddiaeth Rhif 35W

Cyflwyniad

Mae'r daflen wybodaeth hon yn darparu cyngor cyffredinol ar gyfer ffermwyr ar drafod gwartheg llawndwf, gan gynnwys teirw stoc, teirw cig eidion, gwartheg sugno a godro, yn ddiogel ac ar gadw teirw stoc a theirw eidion dan do yn ddiogel. Nid yw'n ymdrin â'r rhagofalon y mae angen eu cymryd i ddiogelu'r cyhoedd pan fyddwch yn cadw gwartheg mewn caeau y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt, na phan fyddwch yn paratoi gwartheg i'w lladd, yr ymdrinnir â hwy yn Nhaflenni Gwybodaeth Amaethyddiaeth AIS17 *Keeping cattle in fields with public access* (ar gael ar y we yn unig o wefan HSE) ac AIS34 *Preparing cattle for slaughter* (ar gael o HSE Books).

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf lladdwyd 28 o bobl gan wartheg, ac achosir dros un ym mhob 14 o anafiadau nad ydynt yn angheuol y rhoddir gwybod amdanynt mewn amaethyddiaeth ganddynt. Achosir marwolaethau ac anafiadau hefyd gan gyfarpar annigonol, er enghraifft yr iau ar wasgfa yn idlio oherwydd gwaith cynnal a chadw gwael a gatiau nas caewyd yn dynn yn cael eu defnyddio i symud anifail i mewn i lori.

Y gyfraith

Bydd dilyn y cyngor yn y daflen hon yn eich helpu i gydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974, Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 a Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i asesu a rheoli'r risgiau yn gysylltiedig â gweithgareddau gwaith i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol.

Y risgiau

Wrth drafod gwartheg mae bob amser risg y cewch eich anafu trwy gael eich gwasgu, eich cicio, eich hyrddio neu eich cornio. Mae mwy o risg os yw'r gwaith yn cynnwys anifeiliaid nas trafodwyd yn aml, megis gwartheg a gedwir ar fryniau neu rostiroedd, gwartheg sugno neu wartheg sydd newydd fwrw llo. Gall rhai tasgau, megis gwaith milfeddygol, gynyddu'r risg ymhellach. Fodd bynnag, gall systemau trafod cywir, staff hyfforddedig a chymwys, a pholisi difa trwyadl helpu i sicrhau y gellir trafod gwartheg yn gymharol ddiogel. Ni ddylech byth ddiystyru'r risg yn gysylltiedig â gwartheg, hyd yn oed os oes rhagofalon da ar waith.

Gall adnabyddiaeth dda o wartheg unigol arwain at hunanfodlonrwydd, yn arbennig wrth drafod teirw. Mae nifer o ddamweiniau, y mae rhai ohonynt yn angheuol, yn digwydd bob blwyddyn am fod stocmyn yn methu â thrafod teirw gyda pharch. Cofiwch, gall tarw chwareus eich lladd yr un mor hawdd â tharw cynddeiriog.

Egwyddorion cyffredinol trafod gwartheg

Ystyriwch y canlynol:

- y person - gan gynnwys galluoedd meddyliol a chorfforol, hyfforddiant a phrofiad;
- y cyfarpar sydd ar gael - tramwyfeydd cul, gwasgfeydd, cyfleusterau llwytho a chyfarpar trafod teirw;
- yr anifail - gan gynnwys pa mor gyfarwydd ydyw â chael ei drafod a'i iechyd.

Y person

Dylai pawb sy'n trafod gwartheg:

- allu defnyddio'r cyfarpar trafod ac unrhyw gyfarpar diogelwch arall a ddarperir;
- bod yn ymwybodol o'r peryglon wrth drafod gwartheg a dylid eu goruchwylio nes y byddant yn gymwys;
- gallu gweithio gyda'r gwartheg heb gynhyrfu, gyda chyn lleied â phosibl o weiddi, diffyg amynedd neu rym diangen;
- bod yn iach a dylent fod wedi'u hyfforddi'n gywir mewn dulliau gwaith diogel. Darperir hyfforddiant ar sut i drafod da byw gan grwpiau hyfforddi, colegau a darparwyr hyfforddiant unigol.

Weithiau bydd angen dau berson i drafod gwartheg – dylech bob amser asesu'r angen am gymorth cyn dechrau'r dasg.

Nid oes unrhyw uchafswm nac isafswm oedran ar gyfer trafod gwartheg, am fod galluoedd unigolion yn amrywio'n fawr, ond fel rheol ni ddylid caniatáu i blant dan 13 oed fynd i mewn i lety gwartheg na thrafod gwartheg. Mae llawer o ddigwyddiadau sy'n cynnwys gwartheg yn digwydd i bobl sy'n hŷn na'r oedran ymddeol arferol, pan fyddant yn llai heini. Ystyriwch y risgiau yn ofalus cyn i unrhyw un dros 65 oed weithio gyda gwartheg, ac os felly yr hyn y gallant ei wneud yn ddiogel.

Y cyfarpar

Dylai fod gan bob fferm sy'n trafod gwartheg gyfleusterau trafod cywir, sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac sy'n gweithio'n iawn. Mae tramwyfa gul a gwasgfa ar gyfer trafod yr anifeiliaid yn hanfodol. Nid yw gatiau a chlwydi dros dro yn ddigon da, a byddant yn arwain at waith trafod llai effeithlon a'r risg y caiff rhywun ei anafu. Peidiwch byth â cheisio trin unrhyw anifail na gweithio ar unrhyw anifail sy'n cael ei ddal gan gatiau yn unig, neu sydd fel arall yn rhydd i symud wrth ei ewyllys. Os oes rhaid i chi drin gwartheg anabl, neu anifeiliaid mewn blychau rhydd neu gorlannau arwahanu, ac nad oes modd eu clymu'n dynn, gwnewch yn siŵr bod gennych lwybr dianc digonol ac na chewch eich gwasgu os bydd yr anifail yn rholio neu'n sefyll yn sydyn. Mae angen cyfarpar arbennig i drafod teirw stoc y tu allan i'r gorlan.

Y dramwyfa gul

Sicrhewch:

- y gall anifeiliaid fynd i mewn i'r dramwyfa gul, y dylai fod ganddi ben twmffat, a bod digon o le yn y gorlan gasglu iddynt fwydo i mewn i'r twmffat yn hawdd. Mae corlan

gasglu gron yn caniatáu i staff sefyll yn ddiogel y tu ôl i giât wthio wrth iddynt symud anifeiliaid i mewn i'r dramwyfa gul, ac mae'n cadw'r anifeiliaid i symud;
- y gall anifeiliaid weld y wasgfa a'r tu hwnt iddi yn glir, fel y byddant yn symud ar hyd y dramwyfa gul a all fod yn grwm, ond ni ddylai gynnwys troadau tynn. Bydd anifeiliaid yn fwy parod i symud tuag at le golau nag i mewn i'r tywyllwch;
- bod ochrau'r dramwyfa gul yn ddigon uchel i atal anifeiliaid rhag neidio drostynt, a'u bod yn sownd yn y ddaear ac yn ei gilydd;
- y gallwch ddal yr anifail arweiniol yn y dramwyfa gul tra bydd yn aros ei dro yn y wasgfa. Mae drysau colynnog neu ddrysau llithro yn addas, ond gwnewch yn siŵr eu bod yn cael eu gweithio o ochr weithredol y dramwyfa gul fel na fydd yn rhaid i'r gweithredwr estyn ar ei thraws i gau'r giât. Ni ddylai unrhyw un weithio ar anifail yn y wasgfa os oes anifail heb ei glymu yn y dramwyfa gul y tu ôl iddo.

Y wasgfa

Bydd gan wasgfa a fydd yn caniatáu cyflawni'r tasgau mwyaf syml yn ddiogel (gan gynnwys triniaethau trwy'r genau a gwaith a wneir o'r tu ôl i anifeiliaid, ond nid tocio bol na thraed anifeiliaid):

- giât flaen sy'n cloi ac iau (sy'n ei gloi ei hun yn ddelfrydol) i ganiatáu dal pen yr anifail yn gadarn. Bydd bariau pen ychwanegol yn atal yr anifail rhag taflu ei ben i fyny ac anafu pobl;
- rheilen, cadwyn neu far crwper i atal yr anifail rhag symud ymlaen ac yn ôl cymaint â phosibl. Gwnewch yn siwr bod hyn yn cael ei ddefnyddio bob amser;
- bydd y wasgfa yn sownd yn y ddaear neu, os yw'n wasgfa symudol, mewn cerbyd;
- bydd wedi'i lleoli i ganiatáu i chi weithio'n ddiogel o'i hamgylch, heb y risg y byddwch yn dod i gysylltiad ag anifeiliaid eraill, a bydd ganddi oleuadau naturiol neu artiffisial da;
- bydd yn caniatáu i gatiau ac ati agor yn llyfn gyda'r ymdrech a sŵn lleiaf posibl. Bydd gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn helpu;
- bydd ganddi lawr gwrthlithro, wedi'i wneud o bren caled, cadarn a folltiwyd yn ei le (nid yw hoelion yn addas), plât siecr metel, neu bydd mat rwber dros y gwaelod.

Ystyriwch yr angen am gatiau didoli ar ôl y wasgfa i ganiatáu rhannu anifeiliaid yn grwpiau. Bydd yn fwy cyfleus gweithio o amgylch y wasgfa os yw dan do a bod mainc weithio gerllaw (ar gyfer dogfennaeth, meddyginiaethau milfeddygol, offer ac ati).

Corau ffrwythloni artiffisial (FfA)

Er mwyn atal ffrwythlonwyr rhag cael eu hanafu, defnyddiwch wasgfa, neu ryw ddull arall o ffrwyno'r anifail yn dynn mewn man sy'n ddigon bach i'w atal rhag symud tra bydd yn cael ei ffrwythloni. Nid yw corau rhydd lle y gall yr anifail symud yn rhydd yn addas. Yn ddelfrydol, dylech leoli'r cyfleuster FfA gerllaw'r parlwr fel y gall anifeiliaid symud yn syth i mewn iddo ar ôl cael eu godro. Os oes angen, sicrhewch fod digon o staff ar gael i helpu'r ffrwythlonwr i symud y gwartheg i mewn i'r wasgfa yn ddiogel.

Cyfarpar arall

Ni ddylech byth ddefnyddio ffyn a phrociau i daro anifail – gall hynny dorri deddfwriaeth les yn ogystal â chynhyrfu'r anifail. Cyn dechrau gweithio ar unrhyw anifail, sicrhewch y bydd wedi'i ffrwyno'n ddigonol rhag cicio - ystyriwch a ddylech ddefnyddio dyfais wrth-gicio.

Ar gyfer tasgau arbenigol megis tocio troed, defnyddiwch wasgfa a gynlluniwyd i'r pwrpas, ee gwasgfa ag ataliadau traed, winshis bola a digon o le, yn arbennig yn y cefn. Sicrhewch fod cyn lleied o fannau dal â phosibl fel na chaiff rhannau o'ch corff eu dal yn erbyn y wasgfa os bydd yr anifail yn cicio'n wyllt.

Gall penffrwynau a rhaffau fod yn ddefnyddiol ond fel arfer bydd angen pobl a hyfforddwyd yn arbennig i'w defnyddio. Dylech bob amser ddefnyddio rhaffau addas – peidiwch â bodloni ar ddefnyddio llinyn bwndel neu rywbeth tebyg.

Yr anifail

Bydd llawer o wartheg sy'n cael eu trafod yn gyfarwydd â'r broses - bydd gwartheg godro, er enghraifft, yn cael eu trafod bob dydd fel arfer. Gwnewch yn siwr y caniateir i heffrod sydd newydd ymuno â'r fuches odro, a all fod yn llai cyfarwydd â'r synau, y gweithgarwch a'r personél sy'n gysylltiedig â'r broses, ymgyfarwyddo â hwy cyn iddynt gael eu godro am y tro cyntaf. Efallai y caiff gwartheg sugno, neu wartheg pesgi a gedwir ar fryniau neu rostiroedd eu trafod yn anaml iawn ac felly gall y risgiau fod yn llawer uwch.

Efallai na fydd teirw cig eidion wedi datblygu'r holl nodweddion ymosodol a geir mewn anifeiliaid aeddfed, ond ni ellir byth ystyried eu bod yn ddiogel. Sicrhewch fod arferion rheoli diogel ar waith o'r dechrau fel na chewch eich rhoi mewn perygl pan fydd y llo risg isel wedi hanner tyfu'n anifail llawndwf a allai fod yn beryglus.

Os oes gennych anifail sydd fel arfer yn ymosodol neu'n anodd ei drafod, ystyriwch a ddylech ei ddifa. Os na allwch wneud hynny, dylech sicrhau y gall eich cyfarpar a'ch systemau gwaith ymdrin ag ef, a bod staff, a phobl eraill megis milfeddygon, yn ymwybodol o'r anawsterau a allai godi. Gall tynnu cyrn gwartheg eu tawelu dros dro, ond gall ddwyn goblygiadau lles. Ymgynghorwch â milfeddyg cyn gwneud hynny.

Gweithio gyda gwartheg y tu allan

Efallai y bydd yn rhaid cyflawni rhai tasgau y tu allan heb gyfleusterau trafod digonol. Os oes rhaid i chi wahanu anifail oddi wrth y fuches, neu wneud unrhyw waith ar anifail y tu allan, gwnewch yn siŵr y gallwch wneud hynny yn ddiogel. Gall gwaith tagio clustiau godi problemau penodol am y gall ysgogi greddfau amddiffynnol y fam, gan arwain at risgiau i'r stocmon.

Dylech bob amser sicrhau:

- bod o leiaf dau berson yn bresennol os oes rhaid i chi wahanu anifail oddi wrth y fuches yn y cae, neu pan fyddwch yn tagio clust anifail ac mae'r fam heb ei chlymu;
- bod gennych gerbyd yn agos i'r man lle y bwriedir cyflawni'r dasg;
- bod yr ail berson yn gweithredu i gymell anifeiliaid eraill neu'r fam i beidio â dod yn rhy agos i'r dasg, ac yn rhybuddio pan fo angen cymryd camau osgoi, ee mynd i mewn i'r cerbyd.

Os byddwch yn defnyddio tenynnau maes cludadwy neu sefydlog ar gyfer teirw mewn caeau, sicrhewch:

- fod y tennyn yn caniatáu i'r tarw symud yn rhydd heb fawr ddim risg y caiff ei glymu ganddo;
- bod y cysylltiad gyda'r tennyn yn mynd trwy'r fodrwy drwyn p'un a ddefnyddir coler neu gadwyn ben ai peidio;
- na wnewch chi byth unrhyw gysylltiad yn uniongyrchol â'r fodrwy drwyn;
- bod y tennyn yn sownd yn y ddaear;
- bod natur y tarw gyfryw fel y gallwch fynd ato yn ddiogel i gysylltu'r rhaffau a'r polion trafod wrtho cyn ei arwain yn ôl i'r gorlan.

Teirw stoc

Mae teirw stoc yn aml yn cael eu cadw ar wahân i wartheg eraill a gall y diffyg cysylltiad hwn beri rhwystredigaeth iddynt ac felly gallant fod yn fwy ymosodol. Mae teirw yn fwy tebyg o fod yn hydrin os ydynt yn dysgu, o oedran cynnar, i gysylltu presenoldeb pobl â phethau dymunol, megis bwydo, ysgrafellu ac ymarfer. Os ydych yn prynu, yn hurio neu'n benthyca tarw llawndwf, holwch sut y câi ei drafod a'r math o gyfarpar a ddefnyddid, a chymerwch amser i ddod i'w adnabod - gan gofio bod yn arbennig o ofalus ar yr adeg hon. Ystyriwch a ddylech drefnu i'ch teirw gael eu modrwyo pan fyddant tua 10 mis oed - mae hyn yn darparu ffordd gyfleus o'u trafod, yn arbennig os ydynt yn ddi-gyrn. Edrychwch ar fodrwyau trwyn yn rheolaidd i weld a ydynt wedi treulio neu wedi'u difrodi.

Teirw godro

Dylech gadw pob tarw stoc o frîd godro mewn corlan deirw a wnaed i'r diben. Nid yw'n dderbyniol caniatáu i'r teirw hyn redeg trwy'r parlwr adeg godro, eu clymu â chadwyni gwddf mewn corau neu giwbiclau buchod, na chaniatáu iddynt redeg yn rhydd mewn iardiau lle y gall stocmyn fod yn gweithio. Dylai'r gorlan deirw:

- fod wedi'i lleoli lle y gall y tarw weld gwartheg eraill a gweithgarwch fferm, a dylai fod yn ddigon mawr a chryf i ddal yr anifail. Mae wal 215 mm o drwch o flociau concrid cyfnerthedig, ac arni reiliau neu fariau fel y gall weld beth sy'n mynd ymlaen, yn addas. Dylai rheiliau neu fariau fod o leiaf 48 mm ar eu traws y tu allan;
- dylai fod ganddi waliau, ffensys a gatiau allanol sydd o leiaf 1.5 m o uchder a dylai fod wedi'i chynllunio i atal plant rhag mynd trwy'r gorlan deirw neu drostynt i mewn iddi. Dylai'r bariau mewn gatiau a phartisiynau fod yn unionsyth a dylai fod bylchau rhyngddynt heb fod yn fwy na 100 mm;
- dylai ganiatáu cadw pob drws a giât allanol dan glo neu fel arall wedi'u cau'n dynn i atal mynediad anawdurdodedig. Dylai cliciedau allu dal stoc;
- dylai ganiatáu bwydo'r tarw a rhoi dŵr iddo o'r tu allan i'r gorlan, ee trwy agorfa fwydo. Dylai'r man bwydo gynnwys iau (neu gadwyn a bachyn sbring os oes gan y tarw fodrwy) fel y gellir ei rwymo heb yr angen i fynd i mewn i'r gorlan);
- dylai gynnwys iard ymarfer y rheolir mynediad iddi gan giât a weithir o'r tu allan. Bydd hyn yn caniatáu taenu gwellt neu lanhau y tu mewn neu'r tu allan i'r gorlan deirw tra bydd y tarw yn cael ei ddal yn y rhan arall;
- dylai fod ganddi loches neu lwybr dianc argyfwng dirwystr na all plant a chŵn fynd i mewn iddo o'r tu allan, ee trwy ffensio ardal fach y tu allan i'r gorlan deirw fel y gall person ddianc ond ni arall unrhyw beth arall fynd i mewn;
- dylai fod ganddi loriau gwrthlithro sy'n draenio'n rhydd, a digon o oleuadau naturiol ac artiffisial (efallai y bydd angen i chi weithio o amgylch y tarw yn ystod y nos);
- dylai gynnwys corlan gyfebru, y gall y fuwch gael mynediad iddi o'r tu allan. Darparwch iau neu rywbeth tebyg i ganiatáu rhwymo pen y fuwch, a darparwch hefyd droedle sicr ar gyfer y tarw, megis arwyneb llawr rhychiog. Ystyriwch ddarparu esgynfeydd cyfebru ar gyfer coesau blaen y tarw. Dylid casglu had ar gyfer ffrwythloni artiffisial ac ati y tu allan i'r gorlan gyfebru, gan reoli'r tarw trwy ddefnyddio polyn tarw neu gyda thrafodwr ar bob ochr sy'n defnyddio rhaffau;
- dylai fod ganddi arwyddion diogelwch yn rhybuddio am bresenoldeb tarw wrth y fynedfa i unrhyw adeilad lle y cedwir tarw. Defnyddiwch arwydd trionglog â phen tarw mewn du ar gefndir melyn ac ymyl ddu.

Peidiwch byth â mynd i mewn i'r lloc pan fydd y tarw yn rhydd.

Rheoli'r tarw y tu allan i'r gorlan

Pan fydd angen i darw stoc adael y gorlan, mae'n rhaid i chi ddefnyddio cyfarpar addas i'w rwymo a'i arwain. Ystyriwch y brîd, y ffordd y'i trafodwyd yn y gorffennol a natur yr anifail wrth benderfynu p'un o'r canlynol y dylech ei ddefnyddio:

- dau berson, un yn defnyddio polyn tarw sydd ynghlwm wrth fodrwy drwyn y tarw a'r llall yn defnyddio rhaff neu gadwyn sydd ynghlwm wrth y penffrwyn neu'r gadwyn ben trwy'r fodrwy drwyn;
- dau berson yn defnyddio rhaffau neu gadwyni, y naill raff neu gadwyn ynghlwm wrth benffrwyn, a'r llall sydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'r fodrwy drwyn neu drwy'r fodrwy drwyn â'r penffrwyn;
- un person yn defnyddio polyn tarw sydd ynghlwm wrth fodrwy drwyn y tarw a rhaff neu gadwyn sydd ynghlwm wrth benffrwyn neu gadwyn ben trwy'r fodrwy drwyn. Sicrhewch fod person cymwys yn sefyll gerllaw i helpu i reoli'r tarw os bydd angen.

Os na chafodd y tarw ei fodrwyo, sicrhewch fod gennych ddull trafod arall sydd yr un mor effeithiol, ee penffrwyn a rhaff o amgylch gwaelod cyrn y tarw.

Dylai trafodwyr teirw:

- ddal y polyn tarw, y rhaff neu'r gadwyn heb ddefnyddio pwysau diangen;
- cadw golwg ar y tarw;
- cerdded yn ddiwyro ac yn araf ychydig o flaen y tarw; a
- cadw pen y tarw i fyny bob amser.

Teirw stoc o fath eidion

Os ydych yn cadw tarw stoc o frîd eidion mewn corlan deirw dylai gyrraedd y safon ar gyfer teirw o fuchesau godro. Os ydych yn rhedeg y cyfryw darw, neu darw deubwrpas, gyda'r fuches odro lle bynnag y bo modd dylech ei gadw ar wahân i'r buchod adeg godro ac ni ddylech ganiatâu iddo fynd trwy'r parlwr. Fodd bynnag, os nad oes gennych gyfleusterau trafod digonol na digon o staff adegau godro i wneud hynny, gellir caniatáu i'r tarw fynd i mewn i'r parlwr adeg godro, cyhyd â'i fod yn ddigon mawr, y gellir ei gadw'n dawel yn ystod y cyfnod godro (ee trwy ei fwydo) ac nad yw'n dangos unrhyw arwyddion ei fod wedi cynhyrfu. Neu gadewch i'r tarw ddod i mewn i'r parlwr wrth i chi adael i'r buchod wedi'u godro fynd

allan, fel y gall fynd yn syth drwodd. Sicrhewch fod gennych system waith ddiogel ar gyfer y gweithgaredd hwn a bod pawb sy'n debygol o gymryd rhan yn y gweithgaredd yn gwybod amdano.

Os bydd y tarw yn rhedeg yn rhydd yn llety'r buchod, sicrhewch fod pobl eraill, megis ymwelwyr neu weithwyr dros dro, yn gwybod ei fod yn rhydd a pha ragofalon y dylent eu cymryd.

Cig eidion tarw

Er yr anfonir anifeiliaid sy'n cynhyrchu cig eidion tarw yn aml i gael eu lladd cyn iddynt gyrraedd aeddfedrwydd rhywiol llawn, gallant beri risg i'r rhai sy'n gweithio gyda hwy serch hynny, Sicrhewch:

- eich bod yn cadw anifeiliaid mewn grwpiau heb fod yn fwy na 15 i 20;
- y gallwch gyflawni pob tasg fwydo, taenu gwellt ar y llawr a phob tasg hwsmonaeth arferol arall heb fynd i mewn i'r gorlan. Dylech allu agor a chau gatiau rhannu y tu mewn i'r gorlan heb fynd i mewn i'r gorlan. Trwy sicrhau bod gennych gorlan wag mewn unrhyw drefniant o gorlannau cyfagos byddwch bob amser yn gallu symud anifeiliaid allan o unrhyw gorlan y mae angen i chi fynd i mewn iddi;
- bod parwydydd a gatiau corlan yn ddigon cadarn, eu bod yn sownd ac y gellir eu cadw ar uchder o tua 1.5 m uwchlaw'r llawr neu'r gwasarn. Byddai deunyddiau addas yn cynnwys rheiliau dur tiwbaidd sydd o leiaf 48 mm ar eu traws y tu allan;
- y bydd 1 m isaf parwydydd y gorlan sy'n wynebu tramwyfeydd ac ati yn atal plant rhag mynd i mewn iddynt (ee trwy ddefnyddio rhwydwaith neu fetel dalennog, ond sicrhewch na chaiff tagiau clust eu tynnu i ffwrdd os bydd gwartheg yn rhwbio eu pennau ar y parwydydd);
- eich bod yn cau drysau allanol unrhyw adeilad a ddefnyddir ar gyfer teirw cig eidion yn dynn ac eithrio pan fydd angen cael mynediad iddo, a gosodwch arwyddion rhybuddio mewn mannau amlwg yn rhybuddio am bresenoldeb teirw;
- bod y trefniadau ar gyfer trafod a phwyso teirw, trefniadau milfeddygol a threfniadau didoli yn ddiogel - ac wedi'u llunio ar gyfer grŵp o deirw ifanc sydd yn aml yn gryfach ac yn haws eu gwylltio;
- eich bod yn trefnu eich tramwyfa gul, eich gwasgfa a'ch mannau llwytho fel na fydd byth angen i unrhyw un fod ynddynt gyda'r anifeiliaid. Bydd man llwytho a gynlluniwyd yn gywir yn caniatáu i chi gadw rhannau o'r system drafod sefydlog neu gatiau tinbren y lori rhyngoch a'r anifeiliaid bob amser. Cadwch gatiau terfyn allanol iardiau neu'r fferm ar gau pan fyddwch yn llwytho teirw ar lorïau i ddal anifail sydd wedi dianc o fewn yr iard neu'r fferm.

Peidiwch byth â mynd i mewn i gorlan sy'n cynnwys anifeiliaid cynhyrchu cig eidion tarw a pheidiwch byth â gadael i berson eu trafod ar ei ben ei hun.

Darllen pellach

Safon Brydeinig BS 5502: Rhif 40: 2005 *Buildings and structures for agriculture: Code of practice for design and construction of cattle buildings* ar gael gan BSI Customer Services, 389 Chiswick High Road, London W4 4AL Ffôn: 020 8996 9001 Ffacs: 020 8996 7001.
Mae DEFFRA a SAC yn cynhyrchu amrywiaeth o gyhoeddiadau ar drafod gwartheg a'u cadw dan do, sydd ar gael gan. DEFRA Publications, Admail 6000, London SW1A 2XX, Ffôn: 08459 556000 a SAC, West Mains Road, Edinburgh EH9 3JG, Ffôn: 0131 535 4196.

Gwybodaeth bellach

Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth ac am ddim ar gael trwy archebu drwy'r post gan HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995 Gwefan: www.hsebooks.co.uk (Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth hefyd ar gael o siopau llyfrau a gellir lawrlwytho taflenni am ddim o wefan HSE: www.hse.gov.uk)

Er mwyn cael gwybodaeth am iechyd a diogelwch ffoniwch Linell Wybodaeth HSE Ffôn: 0845 345 0055 Ffacs: 0845 408 9566 Ffôn testun: 0845 408 9577 e-bost: hse.infoline@natbrit.com neu ysgrifennwch i Gwasanaethau Gwybodaeth HSE, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3GG.

Mae'r daflen hon yn cynnwys nodiadau ar arfer da nad ydynt yn orfodol ond a allai fod yn ddefnyddiol wrth i chi ystyried yr hyn y mae angen i chi ei wneud.

© ⓗ *Hawlfraint y Goron* Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn am ddim, heblaw at ddibenion hysbysebu, arnodi neu ddibenion masnachol. Cyhoeddwyd gyntaf 11/99. Cydnabyddwch y ffynhonnell fel HSE.